

## Proffil Hyfforddeiaeth Treftadaeth Ddiwylliannol

<b>Swydd</b>	Hyfforddai Uchelgais Ddiwylliannol
<b>Cyfnod yr Hyfforddeiaeth</b>	Cyfnod penodol mis Hydref 2019 – mis Medi 2020
<b>Oriau</b>	30 awr yr wythnos (i gynnwys dysgu ar y safle a chwblhau gwaith coleg)
<b>Taliadau Bwrsariaeth</b>	£800 y mis
<b>Rhanbarth</b>	Abertawe & Sir Gaerfyrddin
<b>Enw'r Mentor</b>	Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Amgueddfa Abertawe, Oriol Gelf Glynn Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Gwansanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg) Y Ganolfan Eifftaidd
<b>Dyddiad</b>	Mis Ebrill 2019

### Trosolwg o'r Hyfforddiant

Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyfle cyffrous i berson ifanc sy'n dymuno dysgu am weithio mewn amgueddfeydd, cestyll, archifdai a lleoliadau treftadaeth ddiwylliannol. Bydd yr hyfforddai'n treulio 12 mis yn dysgu mewn tri lleoliad treftadaeth ddiwylliannol o fewn y rhanbarth, a bydd yn derbyn bwrsariaeth o £800 y mis am bob mis o'r hyfforddeiaeth. Bydd y rhaglen yn ymdrin ag amrywiaeth o sgiliau a fydd yn arwain at gymhwyster a mwy o sgiliau cyflogadwyedd.

Bydd yr hyfforddai'n fyfyrwr cofrestredig gyda Choleg Caerdydd a'r Fro a bydd yn ofynnol iddo gwblhau e-bortffolio o'i ddysgu a fydd yn cael ei asesu drwy gydol y flwyddyn leoliad.

### Cymhwyster

Byddwch yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol fel rhan o'r hyfforddeiaeth hon, a ddysgir yn y gwaith gyda chefnogaeth gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Dyma deitlau'r unedau a astudir:

- Cynorthwyo gyda digwyddiadau a dulliau gweithredu mewn argyfwng
- Gweithio gyda chydweithwyr
- Cyfrannu at ofalu am adeiladau lleoliad diwylliannol
- Cynorthwyo cwsmeriaid, ymwelwyr neu gynulleidfaoedd i gael y gorau o'u profiad o sefydliad creadigol neu ddiwylliannol
- Cefnogi gweithgareddau dysgu mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol



creative  
& cultural  
skills



- Cefnogi gweithgareddau marchnata mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol
- Hunaniaeth ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Rhoi gwasanaeth cwsmer dibynadwy
- Rhoi argraff gadarnhaol o'ch hunain i gwsmeriaid

## Proffil Person

Rydym yn chwilio am rywun sydd ag angerdd a diddordeb gwirioneddol mewn dysgu o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol.

Canllawiau i hyfforddeion:

- Ni ddylent fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant tra cwblheir yr hyfforddeiaeth
- Dylent feddu ar gymhwyster TGAU mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, neu dystiolaeth o gyrhaeddiad cyfatebol, megis rhaglen datblygiad personol Ymddiriedolaeth y Tywysog, profiad gwaith neu Sgiliau Hanfodol Cymru
- Ni ddylent fod wedi graddio
- Siaradwyr Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol

## Sut i wneud cais:

I wneud cais, cwblhewch y ffurflen gais amgaeedig a monitro, gan gynnwys datganiad personol byr yn egluro pam fod gennych ddiddordeb gwneud cais am yr hyfforddeiaeth hon. Gall eich datganiad personol fod ar ffurf fideo neu'n ysgrifenedig. Ebost [jo.esposti@ccskills.org.uk](mailto:jo.esposti@ccskills.org.uk) neu bostio i:

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol  
PO Box 252  
Aberystwyth SY23 9FN

Noder mai ond nifer cyfyngedig o leoliadau hyfforddiant sydd ar gael.